



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Red Balŵn Coch

**Circle Way East
Llanedern
Caerdydd
CF23 9PZ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg



Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Gwener, 8 Rhagfyr 2017

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Red Balloon Day Nursery Cyfyngedig gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2003 i ddarparu gofal dydd llawn i uchafswm o 51 o blant yn Red Balŵn Coch. Mae'r feithrinfa yn gweithredu rhwng 7.30am a 6pm ar ddyddiau'r wythnos o eiddo preswyl addasedig yn ardal Llanedyrn yng Nghaerdydd, ac mae'n cynnig gwasanaeth cofleidiol o Ysgol y Berllan Deg. Enwebwyd unigolyn cyfrifol a phenodwyd dau berson â gofal i oruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae dirprwy ar waith hefyd. Gwasanaeth dwyieithog ydyw.

Crynodeb o'n canfyddiadau ni

1. Asesiad cyffredinol

Gall y plant fwynhau a dysgu trwy amrediad o weithgareddau a phrofiadau ysgogol. Canfuom fod y plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yng ngofal y staff ac maent yn gyfarwydd â'u hystafelloedd canolog. Mae'r plant yn profi cymysgedd o chwarae rhydd a gweithgareddau â phwyslais penodol a gynllunnir gan y staff. Dylid datblygu rhai meysydd mewn perthynas â sicrhau bod cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau yn syth a'u llofnodi gan rieni. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr amgylchedd dan do yn cael ei ailaddurno, ac mae cynlluniau ar gyfer datblygu'r ardal awyr agored ymhellach. Mae hunanwerthuso a gweithio mewn partneriaeth yn gadarn yn y gwasanaeth. Mae'r person â gofal yn rhagweithiol a rhoddodd sicrwydd y bydd yr holl argymhellion yn derbyn sylw

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r darparwr wedi gweithredu'r ddau argymhelliad a wnaed, sef cwblhau'r adroddiad ansawdd gofal ac ailaddurno'r ardaloedd o fewn y feithrinfa.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Gwnaethom rai argymhellion arfer da ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys ym mhrif destun yr adroddiad a'u crynhoi ar y diwedd.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae gan y plant gyfleoedd chwarae a dysgu da ac maent yn mwynhau'r gweithgareddau a ddarperir. Maent yn ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u cyfoedion a'u gofalwyr. Cânt eu gwerthfawrogi a'u parchu ac mae ganddynt rai cyfleoedd i fod yn annibynnol.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant wneud dewisiadau a phenderfyniadau yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau sydd ar gael iddynt. Gwelsom fod y plant yn symud yn rhydd o gwmpas eu hystafelloedd canolog, gan ddewis teganau a oedd o ddiddordeb iddynt. Dywedodd y person â gofal wrthym yr ymgynghorir â'r plant ynglŷn â syniadau ar gyfer y fwydlen, a bod adborth y plant ar weithgareddau'n cael ei gasglu. Clywsom blant yn gofyn i staff am gymorth yn hyderus yn ystod amser bwyd ac yn dewis lle roeddent yn dymuno eistedd.

Mae hawl y plant i fynegi eu hunain yn rhydd ac i wneud dewisiadau annibynnol yn cael ei hannog a'i pharchu yn y gwasanaeth.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu, maent yn gyfforddus ac maent yn ddiogel yn y feithrinfa. Yn ystod y ddau ymweliad arolygu, roedd y plant yn i'w gweld yn hapus ac yn fodlon. Clywsom ymdrechion y plant yn cael eu canmol a'u hannog yn gyson, gyda themau fel 'da iawn' a 'diolch am rannu' yn cael eu defnyddio. Mae'r plant yn datblygu perthynas glòs â'r gweithwyr allweddol a gwelsom fod y plant yn hyderus i fynd at bobl gyfarwydd pan oedd angen cymorth a sicrwydd arnynt.

Mae'r plant yn hapus a chânt eu gwerthfawrogi gan y tîm staff.

1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u cyfoedion ac maent yn dysgu i rannu ac i gydweithredu yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Gwelsom blant yn ymgymryd â gweithgareddau grŵp gyda'i gilydd, yn adeiladu blociau ac yn eistedd gyda'i gilydd ac yn siarad wrth fwyta eu bwyd. Roedd y plant yn mwynhau gweithgareddau grŵp ac yn cymryd eu tro wrth rannu adnoddau ac yn aros eu tro. Gwelsom fod rhai o'r plant a oedd eisiau defnyddio'r un eitemau yn gallu datrys pethau drostynt eu hunain, ond ar adegau eraill, bu'n rhaid i staff ymyrryd ac annog y plant i rannu. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw pwy oedd eu ffrindiau a phwy roeddent yn hoffi chwarae â nhw.

Mae'r plant yn datblygu gwydnwch, hyder a chydweithrediad o ganlyniad i'r profiadau a gynigir iddynt.

1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn arddangos brwdfrydedd a mwynhad yn y cyfleoedd sydd ar gael. Gwelsom amrediad digonol o weithgareddau dysgu a chwarae. Roedd y pwyslais ar chwarae hunangyfeiriedig ac anstrwythurol, ond cyflwynwyd rhywfaint o chwarae strwythuredig a arweinir gan oedolion yn y trefniadau dyddiol. Gwelsom weithgareddau creadigol/anniben, amser cylch a chwarae awyr agored. Roedd gweithgareddau chwarae rôl yn y gornel gartref a gwelsom blant yn chwarae gydag offerynnau cerdd. Dywedodd plant wrthym eu bod yn hoffi'r feithrinfa a'r teganau maent yn chwarae gyda nhw.

Mae'r plant yn cael eu cadw'n brysur mewn modd addas ac mae'r gweithgareddau sydd ar gael yn cynnal eu diddordeb.

1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau cyffredinol ac yn dechrau gwneud penderfyniadau annibynnol. Roedd y plant hŷn yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio'r cyfleusterau toiled heb gymorth gan oedolion, a gwelsom sgiliau hunangymorth da yn ystod amseroedd pryd bwyd. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hwn gyson, oherwydd ar un adeg gwelsom staff yn arllwys diodydd ac yn codi bwyd i'r plant. Rydym felly'n argymhell y dylai'r cyfleoedd i fod yn annibynnol yn ystod amser bwyd fod yn gyson. Roedd y plant yn cael eu hannog i dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau ac i fod yn gyfrifol am roi'r teganau yn ôl unwaith roeddent wedi gorffen â nhw. Oherwydd bod chwarae gan amlaf yn anffurfiol, roedd y plant yn hyderus wrth ddewis adnoddau a symud yn rhydd rhwng ardaloedd yr ystafell ganolog er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol o'u dewis.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau hunangymorth pwysig, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae gofal a datblygiad y plant yn addas. Mae gweithdrefnau iechyd a diogelwch addas ar waith. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda ac yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r feithrinfa yn gweithredu mesurau rheoli heintiau addas i sicrhau iechyd plant o ran newid cewynnau, golchi dwylo a pharatoi bwyd. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a diogelu, ac mae gan y feithrinfa weithdrefnau amddiffyn plant ysgrifenedig addas sy'n cynnwys y ddyletswydd Atal (dyletswydd statudol ydyw ar ddarparwyr i atal plant rhag cael eu denu at eithafiaeth).

Mae anghenion deietegol penodol y plant yn cael eu nodi ac mae polisi bwyta'n iach ar waith. Mae'r fwydlen yn dilyn canllawiau bwyta'n iach ac mae'r feithrinfa'n ymgymryd ag ail ran Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy (CHASPS) Caerdydd. Mae'r feithrinfa hefyd yn rhan o fenter brwsio dannedd y 'Cynllun Gwên'.

Mae'r staff yn y gwasanaeth hwn yn helpu hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.

2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith sy'n amlinellu'r arferion gweithio a'r strategaethau y dylai'r staff eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant. Mae'r staff yn modelu ymddygiad da ac roeddent yn defnyddio iaith gadarnhaol trwy gydol y sesiwn. Clywsom ymadroddion fel 'dim diolch' pan arddangosodd y plant ymddygiad digroeso a defnyddiwyd llawer o ganmoliaeth i gydnabod ymddygiad da. Ychydig iawn o ymddygiad digroeso a welsom yn ystod yr arolygiad, ond aethpwyd i'r afael â digwyddiadau bychain yn dda gan staff ac, ar y cyfan, gwnaethant ddangos hyder yn eu hymarfer mewn perthynas â chefnogi plant. Yn ystod y ddau ymweliad arolygu roedd y staff yn siarad yn garedig ac yn dyner â phlant ac yn eu trin â pharch.

Mae ymddygiad cymdeithasol y plant yn cael ei reoli mewn modd cyson, sy'n helpu'r plant i ddeall pa ymddygiad sy'n dderbyniol a pha ymddygiad nad yw'n dderbyniol.

2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae tystiolaeth o gynllunio ar draws yr ystodau oedran yn unol â'r Cyfnod Sylfaen a'r saith maes dysgu. Caiff datblygiad y plant ei fonitro a'i asesu, ac mae eu hanghenion penodol yn cael eu nodi er mwyn cynllunio ar gyfer y cam nesaf yn eu datblygiad. Gwnaethom argymhell y dylid dyddio gwaith celf y plant yn eu ffeiliau datblygu unigol er mwyn dangos pryd y cafodd ei wneud. Mae'r staff yn arddangos dealltwriaeth o anghenion y plant ac maent yn amlwg wedi datblygu perthnasau cadarnhaol â nhw. Caiff cwestiynau eu defnyddio yn dda er mwyn ehangu ar sgiliau'r plant ac mae'r staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr â'r plant.

Mae'r staff yn cefnogi ac yn hyrwyddo datblygiad ac anghenion penodol y plant yn dda iawn.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Lleolir y feithrinfa ar ddau lawr eiddo preswyl addasedig, ac mewn adeilad dros dro o fewn y tiroedd. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau, arddangosfeydd a gweithgareddau yn hyrwyddo amrywiaeth dda o ddewis a dysgu. Mae'r feithrinfa yn ddiogel a rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch. Mae gan blant fynediad at ardal chwarae awyr agored a ddefnyddir bob dydd. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr adeilad yn cael ei ailaddurno ac mae cynlluniau i ddatblygu'r ardal awyr agored.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r ardaloedd o fewn y feithrinfa yn lân ac yn addas ar gyfer oedran y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Mae'r brif fynedfa yn ddiogel ac mae'n ofynnol i'r holl ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan. Mae system teledu cylch cyfyng ar waith ar gyfer yr ardaloedd y tu allan ac yn y gegin. Cwblheir gwiriadau addas mewn perthynas â nwy a thrydan, ac mae arferion tân yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n rheolaidd. Cwblheir a chofnodir gwiriadau diogelwch gweledol o'r adeilad gan staff bob dydd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y feithrinfa'n darparu amgylchedd diogel i'r plant.

3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Gofelir am y plant mewn ystafelloedd canolog yn seiliedig ar eu hoedran a'u cam datblygu. Ar adeg yr arolygiad roedd y feithrinfa'n cael ei hailaddurno. Roedd gan yr ystafelloedd lle y cwblhawyd gwaith ailaddurno arnynt arddangosfeydd lliwgar a gwaith y plant ar y waliau. Mae swyddfa ar y llawr cyntaf ar gyfer sgysiau cyfrinachol, ac mae hysbysfwrdd yn y cyntedd sy'n darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, gan gynnwys bwydlenni, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a llyfrau i blant eu benthycu. Y tu allan, mae gan y plant fynediad at ardal chwarae ddiogel gyda digon o adnoddau. Dywedodd y person â gofal wrthym fod cynlluniau ar waith i ddatblygu'r ardal chwarae awyr agored i ddarparu rhagor o gyfleoedd i'r plant.

Mae'r feithrinfa yn darparu gofod addas ar gyfer chwarae'r plant ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r ardaloedd mewnol ac allanol ymhellach.

3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae amrediad addas o deganau ac offer ar gael i'r plant. Mae rhai bocsys storio ar lefel isel ar gyfer teganau ym mhob ystafell fel bod plant yn gallu cael fynediad at adnoddau a gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae'r teganau o ansawdd da a chânt eu cynnal a'u cadw yn dda, ac mae offer digonol ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth fyrrdau a chadeiriau bach a

ddefnyddir yn ystod amser bwyd a gweithgareddau pen bwrdd, hambyrddau tywod, casgliad o deganau bychain, posau, llyfrau Saesneg a Chymraeg ac adnoddau diwylliannol. Roedd yr adnoddau a oedd ar gael yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn cefnogi cyfleoedd cyfartal.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn elwa ar ddewis digonol o adnoddau ac offer i sicrhau bod eu profiadau chwarae yn bleserus.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

At ei gilydd mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol gyda systemau cadw cofnodion trefnus ar waith. Mae partneriaeth gref gyda rhieni ac mae'r tîm staff yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith ac mae'r hunanwerthuso'n gadarn. Gwnaethom rai argymhellion o ran cofnodi damweiniau a digwyddiadau.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan, mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth fanwl fel bod rhieni yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas i'w plentyn. Gwnaethom nodi bod y ffeil bolisiau yn drefnus ac yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o bolisiau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cedwir cofrestr bresenoldeb sy'n cynnwys amserau cyrraedd a gadael y plant. Gwnaethom archwilio'r cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes, a chanfod eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw dueddiadau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid gofyn i rieni lofnodi cofnodion o ddigwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes. Gwnaethom hefyd argymhell y dylid cwblhau'r ffurflenni damweiniau yn syth ac y dylid eu rhoi i'r rhieni cyn gynted ag y bo modd. Gwnaethom edrych ar sampl o gontractau'r plant a chanfod bod y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae polisi cwynion ar waith a rhoddir copi o hwn i'r rhieni. Caiff pob cwyn ei chofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cofnodi pob trafodaeth ac unrhyw gamau a gymerir o ganlyniad, yn unol â disgwyliadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 mlwyddyn oed. Fel meithrinfa ddwyieithog, mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg.

Ar y cyfan, caiff y gwasanaeth ei redeg yn effeithiol, er y dylid adolygu'r systemau ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau a phryderon a leisir ar lafar.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwaith o hunanwerthuso yn gadarn yn y gwasanaeth hwn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd ar waith a bod hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn cael eu cynnal yn barhaus. Mae adolygiad ansawdd gofal wedi'i ddiweddarau ar waith, sy'n cynnwys safbwyntiau'r rhieni, y staff, y plant ac asiantaethau allanol. Gwnaethom archwilio holiaduron a ddsberthid i'r rhieni a'r plant ddwywaith y flwyddyn i geisio eu barn am y bwydlenni, y gweithgareddau a'r adnoddau. Canfuom fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed, gan gynnwys yr opsiynau ar y fwydlen. Mae adborth gan rieni, plant ac asiantaethau allanol wedi'i goladu a'i arddangos ar hysbysfyrdau yn y gwasanaeth er mwyn i rieni allu ei weld.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei werthuso a'i adolygu'n gyson ac yn barhaus er mwyn gwneud gwelliannau.

4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau un i un yn rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd i drafod ymarfer – sy'n cael eu cofnodi'n ffurfiol. Mae gan y tîm staff gymwysterau cymorth cyntaf wedi'u diweddarau, mae gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ac mae'r staff wedi'u cymhwyso'n briodol. Roedd y ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y gwasanaeth yn defnyddio'r broses 'recriwtio mwy diogel' i sicrhau bod y staff a gyflogir yn addas i weithio gyda phlant. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt gyfleoedd i fynychu hyfforddiant ac i ddiweddarau eu sgiliau.

Mae system effeithiol ar waith ar gyfer rheoli staff.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae partneriaethau effeithiol ar waith. Mae'r gwasanaeth yn rhan o sefydliad ymbarél, ac mae wedi sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau allanol drwy ymgymryd â 'Chynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Caerdydd' a'r wobwr 'Safon Aur Byrbryd Iach'. Darperir amrediad o wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth i'r rhieni fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus o ran ei addasrwydd ar gyfer eu plentyn, a chânt eu hannog i fod yn gyfranogwyr gweithredol drwy'r sesiynau coginio 'cogyddion bychain', ac ymuno â chodi arian i elusennau. Mae'r gwasanaeth yn cynhyrchu cylchlythyr yn rheolaidd i hysbysu'r rhieni am y digwyddiadau cyfredol. Cynhelir nosweithiau rhieni yn flynyddol, a rhoddir adborth rheolaidd i'r rhieni ynglŷn â threfn ddyddiol a chynnydd eu plentyn. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron y gwnaethom eu derbyn yn cadarnhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Dywedodd un rhiant wrthym, 'Mae fy mhientyn yn dwlu dod yma'. Dywedodd y person â gofal wrthym eu bod yn diweddarau eu tudalen cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i hysbysu'r rhieni a chasglu awgrymiadau'r rhieni ar fwydlenni a gweithgareddau. Gwelsom dystiolaeth o wibdeithiau o fewn y gymuned leol.

Mae partneriaethau'n effeithiol yn y gwasanaeth, sy'n amlhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sicrhau bod cofnodion damweiniau'n cael eu cwblhau yn syth gan staff a'u rhoi i rieni cyn gynted ag y bo modd;
- dylid dyddio gwaith celf y plant yn y ffeiliau datblygu;
- dylid sicrhau bod rhieni'n llofnodi cofnodion o ddigwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes;
- sicrhau bod cwynion ar lafar ac unrhyw gamau a gymerir yn cael eu cofnodi; a
- darparu cyfleoedd cyson i blant fod yn annibynnol yn ystod amseroedd pryd bwyd.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, a gynhaliwyd o ganlyniad i bryder:

- Cynhaliodd un arolygydd ddau ymweliad â'r gwasanaeth dros gyfnod o ddau ddiwrnod, a chyda'r cyntaf yn un dirybudd;
- gwnaethom ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael i AGGCC, gan gynnwys y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth;
- gwnaethom ymgymryd â gwiriad gweledol o'r adeilad;
- gwnaethom arsylwi ar arferion gofal;
- gwnaethom siarad â dau riant a thri phlentyn;
- gwnaethom siarad â phedwar aelod o staff, ac ystyried pum holiadur adborth staff;
- gwnaethom archwilio amrediad eang o bolisiau a gweithdrefnau. Gwnaethom ganolbwyntio ar y datganiad o ddiben, cofnodion damweiniau a digwyddiadau, ffeiliau staff, contractau'r plant, y polisi rheoli ymddygiad a'r polisi diogelu.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Unigolyn Cyfrifol	Rhona Dyer
Personau â gofal	Rhona Dyer Stephanie-Mayy Hindley-Morris
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	51
Ystod oedran y plant	0 i 8 oed
Oriau agor	7.30am i 6pm ar ddyddiau'r wythnos
Iaith weithredol y gwasanaeth	Dwyieithog
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	23 Mawrth 2016
Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn	25 a 26 Hydref 2017
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac mae'n cynnig gwasanaeth dwyieithog. Rydym yn argymhell y dylai darparwr y gwasanaeth ystyried ' <i>Mwy na Geiriau – Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Gofal Cymdeithasol</i> ' Llywodraeth Cymru.
Gwybodaeth ychwanegol: Dim	